

Cyngor Adnewyddu'r Economi

Amcanestyniadau Cyllideb Cymru

Diben

1. Cynnig diweddariad i Gyngor Adnewyddu'r Economi ynghylch y sefyllfa gyllidol a ragwelir i Gymru sy'n sail i Gyllideb Ddrafft nesaf Llywodraeth Cymru.

Gweithredu:

2. Gofynnir i'r Cyngor nodi cynnwys y Papur.

Cefndir

3. Fe wnaeth Adolygiad Llywodraeth y DU o Wariant yn 2010 osod cyllideb Llywodraeth Cymru am y cyfnod o 2011-12 i 2014-15, a dyma'r setliad mwyaf anodd i Gymru ers datganoli.
4. Ers hynny, mae Llywodraeth y DU wedi adolygu'r gyllideb a ddyrennir, ac ers i'r Cynulliad gymeradwyo Cyllideb Derfynol 2013-14 yr hydref diwethaf, mae Llywodraeth y DU wedi lleihau ein Cyllideb ddwywaith.
5. Mae cyfanswm Cyllideb Llywodraeth Cymru am y cyfnod 2014-15 bellach yn £81m y llai nag yn y cynlluniau a gyhoeddwyd gennym, ac mewn termau real, ac erbyn diwedd cyfnod yr Adolygiad Gwariant presennol, bydd cyfanswm cyllideb DEL £1.4bn yn is mewn termau real nag yn 2010-11.

Goblygiadau Cylch Gwariant 2013

6. Ar 26 Mehefin, fe wnaeth Llywodraeth y DU gyhoeddi canlyniad ei Chylch Gwariant a gosododd gyllideb 2015-16 Llywodraeth Cymru am y tro cyntaf. O ganlyniad i'r cyhoeddiad hwnnw, pennwyd ein DEL Adnoddau (heb gynnwys dibrisiant) yn £13.6bn a phennwyd ein DEL Cyfalaf yn £1.46bn (y mae £179m ohono yn drafodion ariannol¹). Felly cyfanswm cyllideb Llywodraeth Cymru yn 2015-16 yw £15.1bn.
7. Mae hyn yn golygu y bydd cyllideb Cymru yn 2015-16 £280m (2%) yn is mewn termau real nag oedd yn 2014-15.
8. Bydd effaith gyffredinol y penderfyniadau hyn yn golygu y bydd cyllideb Cymru £1.68bn yn is erbyn 2015-16 nag oedd yn 2010-11.

¹ Nid yw trafodion ariannol yn grantiau cyfalaf. Gellir defnyddio trafodion ariannol at ddibenion benthyciadau ac ecwiti yn unig, a bydd rhaid ad-dalu cyfran o'r cyllid i'r Trysorlys.

Cyngor Adnewyddu'r Economi

9. Mae'r tabl isod yn cymharu Cyllideb Cymru yn 2014-15 a 2015-16.

Cymhariaeth o Gyllideb Cymru rhwng 2014-15 a 2015-16

	2014-15	2015-16	Change in 2015-16	
			£ million	Per cent
Resource DEL	13,690	13,635	-54	-0.4%
Non-fiscal Resource DEL ¹	506	627	120	23.7%
Capital DEL	1,431	1,461	30	2.1%
Total DEL (excluding non-fiscal resource items)	15,121	15,096	-25	-0.2%
<u>Real terms (2012-13 prices)</u>				
Resource DEL	13,133	12,849	-284	-2.2%
Capital DEL	1,373	1,376	4	0.3%
Total DEL (excluding non-fiscal resource items)	14,505	14,225	-280	-1.9%

¹Ring-fenced depreciation and student loans.

Rhagolygon i'r Dyfodol


10. Gan gymryd yn ganiataol na chaiff fformiwla Barnett ei diwygio, bydd maint cyllideb Llywodraeth Cymru yn dal i gael ei bennu'n uniongyrchol gan benderfyniadau polisi Llywodraeth y DU ynghylch lefel gyffredinol gwariant cyhoeddus a dyraniad y gwariant hwnnw rhwng meysydd datganoledig a rhai heb eu datganoli. Wrth gwrs, mae penderfyniadau Llywodraeth y DU ynghylch lefel gyffredinol y gwariant yn ddibynnol ar ei phenderfyniadau ynghylch trethi a benthyca.
11. Mae rhagweld sefyllfa ariannol Llywodraeth y DU yn heriol dros ben, nid yn lleiaf oherwydd ansicrwydd ynghylch perfformiad yr economi ehangach, sy'n dylanwadu ar refeniw trethi a rhannau sylweddol o wariant ar les. Fodd bynnag, mae Llywodraeth y DU wedi darparu cwrdd helaeth ar gyfer gwariant tebygol yn ystod blynyddoedd ariannol 2016-17 a 2017-18, ac ar sail y rhain, gallwn ystyried senarios tebygol gwariant cyhoeddus.
12. Mae'r Siart canlynol yn arddangos darpariaeth cyllid arfaethedig Llywodraeth y DU i Lywodraeth Cymru mewn termau real. Bydd union ddyraniad blynyddoedd 2016-17 a 2017-18 yn dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth y DU yn y dyfodol ynghylch dosbarthu newidiadau gwariant rhwng meysydd datganoledig a rhai sydd heb eu datganoli. Cyflwynir dau senario yn y siart, un sy'n cymryd yn ganiataol y gall "amcanestyniadau" presennol y DU (h.y. i'r gyllideb ieuchyd) barhau, ac un arall sy'n cymryd yn ganiataol eu bod

Cyngor Adnewyddu'r Economi

wedi'u gosod o'r neilltu, a gostyngiadau mewn gwariant a weithredir ar sail gyffredin ar draws holl adrannau'r DU. *Efallai* bydd yr ail ddewis yn agosach at y canlyniad terfynol, oherwydd erbyn 2015-16, bydd adrannau nas gwarchodir wedi profi gwasgfa eithriadol o galed.

13. Mae'r siart yn dangos y newid cyfatebol yng nghyllideb Llywodraeth Cymru mewn term real². Y goblygiad yw y gallai cyllideb Cymru fod bron iawn 20% yn is mewn termau real erbyn 2017-18 na'r hyn oedd yn 2010-11.

Amcanestyniadau Cyllideb Llywodraeth Cymru (Termau Real)



14. Lle disgwylir i'r amgylchedd ariannol barhau'n heriol dros y tymor hirach, bydd gwario ar wasanaethau cyhoeddus gan sicrhau gwelliannau mewn canlyniadau a lleihau cost darparu'r gwasanaeth yn y tymor hir yn flaenoriaeth hollbwysig.

Argymhellion

15. Gofynnir i'r Cyngor nodi cynnwys y Papur.

Llywodraeth Cymru Medi 2013

² Defnyddir y datchwyddwr CMC.